## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â'r darpariaethau hynny yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 a bennir yn yr Atodlen i rym ar 19 Medi 2000.

Darperir yn y Gorchymyn ar gyfer cychwyn y darpariaethau sy'n sefydlu'r corff sydd i'w alw'n Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (adran 30) ynghyd â darpariaethau sy'n dilyn o sefydlu'r Cyngor (adran 51 a pharagraffau 3, 4 a 93 o Atodlen 9).

Mae'r Gorchymyn hefyd yn dod ag Atodlen 4 i rym. Mae honno'n cynnwys darpariaethau ynghylch aelodaeth, staff a thrafodion y Cyngor a'i ofynion cyfrifyddu.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn dod â dwy adran arall i rym sy'n angenrheidiol er mwyn caniatáu i'r Cyngor ddechrau ar y gwaith paratoi y mae ei angen er mwyn iddo ymgymryd â'i swyddogaethau llawn: adran 47 sy'n rhoi pwer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi cyfarwyddiadau i'r Cyngor, ac adran 49 sy'n rhoi pwer i'r Cynulliad Cenedlaethol roi grantiau i'r Cyngor.